Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	**Rheoliadau Gwastraff (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019**
DYDDIAD	**19 Rhagfyr 2018**
GAN	**Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**

Rheoliadau Gwastraff (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019

Y gyfraith sy'n cael ei diwygio
Mae Rheoliadau Gwastraff (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019 yn diwygio 12 set o Reoliadau domestig sy'n ymdrin â gwastraff ac sy'n gweithredu Cyfarwyddebau Ewropeaidd gwahanol sy'n gysylltiedig â rheoli gwastraff er mwyn sicrhau y bydd y gyfundrefn wastraff yn gallu parhau i weithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Mae'r OS hwn yn diwygio'r ddeddfwriaeth ddomestig a ganlyn. Bydd y diwygiadau i'r Rheoliadau hyn yn sicrhau y bydd y Rheoliadau'n parhau'n weithredadwy, yn bennaf drwy ddarparu ar gyfer sut y dylid darllen y cyfarwyddebau perthnasol y mae'r ddeddfwriaeth yn ymwneud â hwy (drwy addasu). Nid oes unrhyw newidiadau o sylwedd yn cael eu cyflwyno ac nid ydynt yn dileu nac yn diwygio unrhyw safonau amgylcheddol.

Rheoliadau Cerbydau ar Ddiwedd eu Hoes 2003
Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu'n rhannol Gyfarwyddeb 2000/53/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gerbydau ar ddiwedd eu hoes. Mae'r Rheoliadau'n amlinellu'r gofynion dylunio ar gyfer deunyddiau a chydrannau cerbydau a fydd yn cael eu rhoi ar y farchnad ar ôl i'r Rheoliadau gael effaith. Maent hefyd yn cyflwyno safonau gofynnol ar gyfer ymdrin â cherbydau, a'r Dystysgrif Ddinistrio, sy'n datgofrestru'r cerbyd o'r gronfa ddata genedlaethol o gerbydau pan fydd y Ganolfan Drin Awdurdodedig yn ei hysbysu bod y cerbyd wedi ei ddinistrio.

Rheoliadau Cerbydau ar Ddiwedd eu Hoes (Cyfrifoldeb y Cynhyrchydd) 2005
Mae'r Rheoliadau hyn yn trosi agweddau ar Gyfarwyddeb 2000/53/EC (y Gyfarwyddeb ar Gerbydau ar Ddiwedd eu Hoes) sy'n ymdrin â chyfrifoldeb cynhyrchwyr i sefydlu systemau casglu i gymryd cerbydau yn ôl ar ddiwedd eu hoes heb godi tâl am hynny. Mae’r Rheoliadau’n ymdrin hefyd â'r trefniadau ar gyfer bodloni targedau ar ailddefnyddio, ailgylchu ac adfer.

Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru a Lloegr) 2005
Mae'r Rheoliadau Gwastraff Peryglus yn nodi'r gyfundrefn ar gyfer rheoli ac olrhain gwastraff peryglus yng Nghymru a Lloegr. Cyflwynodd y Rheoliadau hyn broses ar gyfer cofrestru cynhyrchwyr gwastraff peryglus a system newydd ar gyfer cofnodi pan fo gwastraff peryglus yn cael ei symud o'r man lle y'i cynhyrchir i'r man terfynol lle y bydd yn cael ei waredu neu ei adfer.

Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Pacio) 2007
Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 94/62/EC ar ddeunyddiau pacio a gwastraff pacio fel y'i diwygiwyd gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1882/2003, Cyfarwyddeb y Cyngor 2004/12/EC a Chyfarwyddeb y Cyngor 2005/20/EC. Y nod yw cysoni'r ffordd y mae gwastraff pacio yn cael ei reoli ac atal neu leihau effaith deunyddiau pacio a gwastraff pacio ar yr amgylchedd trwy annog cyn lleied o ddefnydd ohonynt ag y bo modd a'u hailddefnyddio trwy bennu targedau ar gyfer eu hadfer a'u hailgylchu. Ar yr un pryd, y nod yw osgoi rhwystrau a allai lesteirio masnach, ac osgoi ystumio a chyfyngu ar gystadleuaeth o fewn y Gymuned.

Rheoliadau Batris a Chronaduron (Rhoi ar y Farchnad) 2008
Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu'n rhannol Gyfarwyddeb 2006/66/EC ar fatris a chronaduron a batris a chronaduron gwastraff ac yn diddymu Cyfarwyddeb y Cyngor 91/157/EEC ar fatris a chronaduron sy'n cynnwys sylweddau peryglus. Prif ddiben y Rheoliadau hyn yw diogelu'r amgylchedd ac iechyd pobl. Maent yn darparu bod yn rhaid i fatris newydd (celloedd untro) a chronaduron (a elwir yn gyffredin yn fatris ailwefradwy) neu offer ac ynddynt fatris neu gronaduron sy'n cael eu rhoi ar y farchnad beidio â chynnwys lefelau gwaharddedig o fetelau trwm a bod yn rhaid iddynt gael eu labelu er mwyn dangos bod asid plwm, cadmiwm neu fercwri ynddynt ac er mwyn hyrwyddo ailgylchu. Maent yn darparu hefyd fod yn rhaid i fathau penodol o offer trydanol ac electronig newydd gael eu dylunio mewn ffordd sy'n golygu ei bod yn hawdd tynnu batris a chronaduron gwastraff ohonynt er mwyn eu hailgylchu.

Rheoliadau Batris a Chronaduron Gwastraff 2009
Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu'n rhannol Gyfarwyddeb 2006/66/EC ar fatris a chronaduron a batris a chronaduron gwastraff ac yn diddymu Cyfarwyddeb y Cyngor 91/157/EEC ar fatris a chronaduron sy'n cynnwys sylweddau peryglus. Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu terfynau ‘cyfrifoldeb cynhyrchwyr’, gan ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr batris a chronaduron ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gasglu batris a chronaduron ar wahân a'u hailgylchu unwaith y byddant yn wastraff.

Rheoliadau Cynlluniau Argyfwng oddi ar y Safle ar gyfer Damweiniau Mawr (Rheoli Gwastraff o Ddiwydiannau Echdynnol) (Cymru a Lloegr) 2009
Mae Rheoliadau Cynlluniau Argyfwng oddi ar y Safle ar gyfer Damweiniau Mawr (Rheoli Gwastraff o Ddiwydiannau Echdynnol) (Cymru a Lloegr) 2009 yn trosi elfennau penodol o Erthygl 6 o Gyfarwyddeb 2006/21/EC ar reoli gwastraff o ddiwydiannu echdynnol (y Gyfarwyddeb Gwastraff Mwyngloddio) yng Nghymru a Lloegr. Mae Erthygl 6 o'r Gyfarwyddeb Gwastraff Mwyngloddio yn ei gwneud yn ofynnol i gymryd camau mewn

perthynas â chyfleusterau 'Categori A' lle y mae'r risgiau mwyaf o niwed i iechyd pobl a'r amgylchedd.

Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011
Mae'r Rheoliadau hyn yn rhannol drosi Cyfarwyddeb 2008/98/EC ar wastraff yng Nghymru a Lloegr. Maent yn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu rhaglenni atal gwastraff a chynlluniau rheoli gwastraff ar gyfer Cymru a Lloegr, gan gynnwys darparu ar gyfer cynnwys y cyhoedd wrth eu paratoi a'u hadolygu. Maent yn gosod dyletswyddau mewn perthynas â gwneud gwell defnydd o wastraff fel adnodd ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r hierarchaeth wastraff yn Erthygl 4 o'r Gyfarwyddeb gael ei chymhwyso yn nhrefn blaenoriaeth. Maent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bapur, metel, plastig a gwydr gwastraff gael eu casglu ar wahân ac yn gwahardd cymysgu'r mathau hynny o wastraff ar ôl iddynt gael eu casglu ar wahân. Mae'r offeryn yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau cynllunio wrth iddynt arfer swyddogaethau penodol o dan y deddfau cynllunio ac yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau sy'n gyfrifol am drwyddedu dodi gwastraff yn y môr. Mae'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â chludwyr gwastraff a broceriaid a delwyr gwastraff ac yn darparu ar gyfer cwblhau nodyn trosglwyddo pan drosglwyddir gwastraff. Mae'n darparu hefyd ar gyfer gorfodi'r gofynion ac yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â lleihau'r baich gweinyddol, gwastraff ymbelydrol a diwygio a dirymu deddfwriaeth arall.

Rheoliadau Gwastraff a Reolir (Cymru a Lloegr) 2012
Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Gwastraff a Reolir 1992 (OS 1992/588). Maent yn categoreiddio gwastraff yn wastraff o gartrefi, yn wastraff diwydiannol neu fasnachol, ac yn rhestru'r mathau o wastraff y caiff awdurdodau lleol godi tâl am eu casglu a'u gwaredu. Mae'r offeryn yn galluogi awdurdodau lleol (fel awdurdodau casglu gwastraff o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990) i godi tâl o dan adran 45 o'r Ddeddf honno am waredu gwastraff sy'n deillio o ystod ehangach o fangreoedd annomestig nag a ganiateid gan Reoliadau 1992; mae hefyd yn cydgrynhoi diwygiadau blaenorol, ac yn diwygio ac yn diweddaru rhai diffiniadau a dosbarthiadau er mwyn gwella eglurder y Rheoliadau a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â deddfwriaeth arall. Mae'n darparu hefyd fod sbwriel penodol i'w drin o dan Ran 2 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn yr un ffordd â gwastraff a gesglir o dan adran 45 o'r Ddeddf.

Rheoliadau Cyfyngu ar Ddefnyddio Sylweddau Peryglus Penodol mewn Cyfarpar Trydanol ac Electronig 2012
Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddeb 2011/65/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyfyngu ar ddefnyddio sylweddau peryglus penodol mewn cyfarpar trydanol ac electronig (ail-lunio), ac yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Cyfyngu ar Ddefnyddio Sylweddau Peryglus Penodol mewn Cyfarpar Trydanol ac Electronig 2008 (OS 2008/37). Maent yn cyfyngu ar ddefnyddio sylweddau peryglus, gan gynnwys rhai metelau trwm a deunyddiau penodol i arafu fflamau mewn nifer diffiniedig o gategorïau o gyfarpar trydanol ac electronig, ac yn ei gwneud yn ofynnol i roi nod CE ar gynhyrchion sy'n cydymffurfio â'r gofynion. Maent yn gosod rhwymedigaethau ar weithredwyr economaidd i fodloni gofynion penodol ac yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol orfodi'r rhwymedigaethau hynny.

Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff 2013

Mae'r Rheoliadau hyn yn trosi prif ddarpariaethau Cyfarwyddeb 2012/19/EU ar gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff sy'n ail-lunio Cyfarwyddeb 2002/96/EC. Prif ddiben y Gyfarwyddeb yw diogelu'r amgylchedd ac iechyd pobl. Mae'r Rheoliadau'n darparu y bydd cynhyrchwyr cyfarpar trydanol ac electronig yn gyfrifol yn ariannol am reoli'r gwastraff sy'n deillio o gynhyrchion y maent yn eu rhoi ar farchnad yr Undeb. Rhaid i gynhyrchwyr hefyd fod wedi'u cofrestru gyda'r awdurdodau cenedlaethol yn yr Aelod-wladwriaeth lle y maent yn rhoi cyfarpar trydanol ac electronig ar y farchnad naill ai'n uniongyrchol neu drwy benodi cynrychiolydd awdurdodedig i weithredu ar eu rhan. Mae'r Gyfarwyddeb yn darparu bod yn rhaid i Aelod-wladwriaethau sefydlu systemau ar gyfer casglu, trin, adfer a gwaredu mewn ffordd amgylcheddol gadarn y rhan fwyaf o fathau o gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff; a bod yn rhaid i gostau'r systemau hynny gael eu hysgwyddo'n bennaf gan gynhyrchwyr cyfarpar o'r fath. Mae rhwymedigaethau ar ddosbarthwyr cyfarpar trydanol ac electronig hefyd i sefydlu systemau er mwyn i aelwydydd preifat (h.y. defnyddwyr) fedru rhoi cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff yn ôl iddynt yn ddi-dâl.

Rheoliadau Deunydd Pacio (Gofynion Hanfodol) 2015
Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Erthyglau 9 ac 11 o Gyfarwyddeb 94/62/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar Ddeunydd Pacio a Gwastraff Pacio. Maent yn pennu'r gofynion hanfodol y mae'n rhaid i ddeunydd pacio eu bodloni cyn y ceir ei roi ar y farchnad. Maent yn rhoi pwerau i awdurdodau gorfodi orfodi'r rhwymedigaethau hynny.

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru
Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Gweinidogion Cymru gymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol, yn y drefn honno, mewn perthynas â gwastraff, ei atal, ei leihau a'i reoli a'r amgylchedd.

Diben y diwygiadau
Diben yr OS hwn yw mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE sydd wedi'i dargadw i weithredu'n effeithiol a hefyd â diffygion eraill a fyddai'n codi pe bai'r DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb.

Swyddogaeth cyfraith yr UE yn y maes hwn yw lleihau'r effeithiau negyddol y mae cynhyrchu a rheoli gwastraff yn eu cael ar iechyd pobl ac ar yr amgylchedd a'n helpu i ddod yn gymdeithas sy'n ailgylchu, sy'n ceisio osgoi gwastraff ac sy’n defnyddio gwastraff fel adnodd.

Mae'r OS a'r Memoranda Esboniadol cysylltiedig sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau i'w gweld yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-waste-miscellaneous-amendments-eu-exit-no-2-regulations-2019

Pam y rhoddwyd cydsyniad
Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran Cymru, am resymau’n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae’r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i

weithio ar ôl i’r DU ymadael â’r UE. Mae hyn yn unol â’r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.